



**Capel Y Tabernacl Efail Isaf  
Chwefror 19eg, 2017**



**Diolch yn fawr i Lowri a Dafydd Roberts ac i Eleri Huws  
am gymryd at y gwasanaeth y bore 'ma.**

**Mae croeso i chi hyrwyddo gweithgareddau trwy'r daflen  
wythnosol hon: [geraintrees@hotmail.com](mailto:geraintrees@hotmail.com).**

**Y SULIAU NESAF**

**Chwefror 26ain** – Bethan Herbert  
yn llywyddu, myfyrdod gan y  
Parchg. Gethin Rhys, Cyfeilio:  
Bethan

**Mawrth 5ed** - Criw Tonteg –  
amser i feddwl beth hoffech ei  
baratoi ar gyfer Sul Gwyl Ddewi!!!!  
Cyfeilio: Sian

**Mawrth 12fed** – y Parchg Aled  
Edwards gyda Wyn Jones yn  
llywyddu, cyfeilio: Bethan

**Mawrth 19** – Oedfa deuluol gyda  
Iwan Rowlands a Huw M Roberts,  
Sian yn cyfeilio

**Mawrth 26** – tuag at y Pasg gyda  
Chôr Caerdydd

**Ebrill 2il:** Graham Davies y  
bardd, gydag Eirian, Nia Williams  
yn llywyddu a Rhiannon yn  
cyfeilio

**PWYLLGOR  
GWEINIDOGAETHU  
Cynhelir cyfarfod yn y  
Ganolfan am 4 o'r gloch  
heddiw.**

**Cyngerdd Curiad Calon,**  
yn y capel,  
i godi arian ar gyfer  
**diffibriliwr i Efail Isaf**  
Nos Sul 19 Mawrth am 7  
Gyda Côr Godre'r Garth  
Parti'r Efail a Chôr yr Einion  
Tocynnau £7 a £5 – Plis  
dewch â llawer o ffrindiau a  
gwerthwch docynnau. Bydd  
rhai ar gael ar ddiwedd yr  
oedfa oddi wrth Gwilym  
Huws a Wendy Reynolds.

**Cofiwch fod pob gwybodaeth am  
fywyd yr eglwys ar gael ar y  
wefan, [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org) ac os  
hoffech chi ragor o fanylion am  
unrhyw agwedd, cysylltwch â'r  
Ysgrifennydd, Gwilym Huws:  
[gehpengwern@yahoo.co.uk/](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk/)  
07710 237327**

## DAL I GASGLU

Mae'r casglu'n parhau ar gyfer Teuluoedd mewn Argyfwng a phrosiect Adref. Os oes gennych ddillad plant, dillad gwely, sachau cysgu, neu nwyddau ymolchi, mae modd i chi eu gadael yn llofft y capel fel arfer, a bydd John yn sicrhau eu bod yn cyrraedd pen eu taith. Diolch i chi am eich cefnogaeth.

## Elusennau'r Capel 2017

Ar wahan i'n hymrwymiad parhaol at Gymorth Cristnogol a Lesotho a bwydo'r digartref yn y Tab, ffoaduriad a phobl ifanc mewn gofal, ein elusennau lleol eleni fydd:  
Gofalwyr Ifanc Rh C Taf,  
Ysgol Tŷ Coch,  
Adref (di-gartre'r cymoedd),  
Pedal Power a  
Cymorth i Ferched

Ffansio helpu drefnu gŵyl gelfyddydol, ddiwylliannol, gymdeithasol, gerddorol ayyb i Gymru yn haf 2018 fydd yn adlewyrchu gwerthoedd cynhwysol a blaengar ein Capel a Cristnogaeth21? Mae croeso i chi ddod i Fetws y Coed, penwythnos Mawrth 31/Ebrill 1af i helpu gynllunio **Gŵyl Coda**. Ewch i [www.coda.cymru](http://www.coda.cymru).

## Y Safle

Gallwch gysylltu â [loan ar 07505 323299](tel:07505323299). Mae bwcio'r Ganolfan neu'r Capel yn hawdd. Ar [carolinerees2@hotmail.com](mailto:carolinerees2@hotmail.com)



## Merched y Tabernacl

Pnawn dydd Mercher, Mawrth 8fed

Bwyta am un o'r gloch

## Cinio Gŵyl Dewi

ym mwyty Caesar's, Creigiau

Croeso i aelodau hen a newydd!

Enwau i Ros (07792864251) neu

Judith (01443 218077)



## MAES CARAFANNAU EISTEDDFOD YR URDD ELENİ

Ydych chi'n garafanwyr neu wersyllwyr? A fyddech yn barod i helpu gyda'r Maes Carafannau/Gwersylla ym Mhencoed eleni? Dewch i aros a helpu allan! Plis mynnwch air gyda Geraint.

**MAI 20fed, siaradwraig flaengar o Awstralia, Dr Val Webb yn cynnal seminar yma yn y capel. Cefndir fel gwyddonydd a diwinydd. Plis cadwch y dyddiad! [www.valwebb.com.au](http://www.valwebb.com.au)**